County Borough of Conwy (Electoral Arrangements) Order 2021 (S.I. 2021/1181 (W. 292))

- 24 In article 2 of the County Borough of Conwy (Electoral Arrangements) Order 2021 (interpretation), for “Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013” substitute “Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013”.

County of Pembrokeshire (Electoral Arrangements) Order 2021 (S.I. 2021/1182 (W. 293))

- 25 In article 2 of the County of Pembrokeshire (Electoral Arrangements) Order 2021 (interpretation), for “Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013” substitute “Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013”.

Gorchymyn Dinas a Bwrdeistref Sirol Casnewydd (Trefniadau Etholiadol) 2021 (O.S. 2021/1216 (Cy. 305))

- 26 Yn erthygl 2 o Orchymyn Dinas a Bwrdeistref Sirol Casnewydd (Trefniadau Etholiadol) 2021 (dehongli), yn lle “Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013” rhodder “Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013”.

Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Caerffili (Trefniadau Etholiadol) 2021 (O.S. 2021/1217 (Cy. 306))

- 27 Yn erthygl 2 o Orchymyn Bwrdeistref Sirol Caerffili (Trefniadau Etholiadol) 2021 (dehongli), yn lle “Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013” rhodder “Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013”.

Gorchymyn Sir Gwynedd (Trefniadau Etholiadol) 2021 (O.S. 2021/1223 (Cy. 307))

- 28 Yn erthygl 2 o Orchymyn Sir Gwynedd (Trefniadau Etholiadol) 2021 (dehongli), yn lle “Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013” rhodder “Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013”.

Gorchymyn Sir Fynwy (Cymunedau) 2021 (O.S. 2021/1227 (Cy. 309))

- 29 Yn erthygl 2(2) o Orchymyn Sir Fynwy (Cymunedau) 2021 (dehongli), yn lle “Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013” rhodder “Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013”.

Gorchymyn Sir y Fflint (Trefniadau Etholiadol) (Rhif 2) 2021 (O.S. 2021/1228 (Cy. 310))

- 30 Yn erthygl 2 o Orchymyn Sir y Fflint (Trefniadau Etholiadol) (Rhif 2) 2021 (dehongli), yn lle “Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013” rhodder “Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013”.

Gorchymyn Sir Fynwy (Trefniadau Etholiadol) 2021 (O.S. 2021/1232 (Cy. 311))

- 31 Yn erthygl 1(4) o Orchymyn Sir Fynwy (Trefniadau Etholiadol) 2021 (enwi, cychwyn a dehongli), yn lle “Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013” rhodder “Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013”.

Gorchymyn Sir Fynwy (Cymunedau) 2022 (O.S. 2022/279 (Cy. 80))

- 32 Yn erthygl 2(2) o Orchymyn Sir Fynwy (Cymunedau) 2022 (dehongli), yn lle “Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013” rhodder “Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013”.

RHAN 2

DIWYGIADAU SY’N YMWNEUD Â NEWID ENW’R COMISIWN

Deddf Blwydd-daliadau 1972 (p. 11)

- 33 Yn Atodlen 1 i Ddeddf Blwydd-daliadau 1972 (mathau o gyflogaeth y cyfeirir atynt yn adran 1 o’r Ddeddf honno), o dan y pennawd italg “Royal Commissions and other Commissions” –

City and County Borough of Newport (Electoral Arrangements) Order 2021 (S.I. 2021/1216 (W. 305))

- 26 In article 2 of the City and County Borough of Newport (Electoral Arrangements) Order 2021 (interpretation), for “Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013” substitute “Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013”.

County Borough of Caerphilly (Electoral Arrangements) Order 2021 (S.I. 2021/1217 (W. 306))

- 27 In article 2 of the County Borough of Caerphilly (Electoral Arrangements) Order 2021 (interpretation), for “Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013” substitute “Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013”.

County of Gwynedd (Electoral Arrangements) Order 2021 (S.I. 2021/1223 (W. 307))

- 28 In article 2 of the County of Gwynedd (Electoral Arrangements) Order 2021 (interpretation), for “Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013” substitute “Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013”.

Monmouthshire (Communities) Order 2021 (S.I. 2021/1227 (W. 309))

- 29 In article 2(2) of the Monmouthshire (Communities) Order 2021 (interpretation), for “Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013” substitute “Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013”.

County of Flintshire (Electoral Arrangements) (No. 2) Order 2021 (S.I. 2021/1228 (W. 310))

- 30 In article 2 of the County of Flintshire (Electoral Arrangements) (No. 2) Order 2021 (interpretation), for “Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013” substitute “Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013”.

County of Monmouthshire (Electoral Arrangements) Order 2021 (S.I. 2021/1232 (W. 311))

- 31 In article 1(4) of the County of Monmouthshire (Electoral Arrangements) Order 2021 (title, commencement and interpretation), for “Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013” substitute “Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013”.

Monmouthshire (Communities) Order 2022 (S.I. 2022/279 (W. 80))

- 32 In article 2(2) of the Monmouthshire (Communities) Order 2022 (interpretation), for “Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013” substitute “Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013”.

PART 2

AMENDMENTS RELATING TO CHANGE OF NAME OF COMMISSION

Superannuation Act 1972 (c. 11)

- 33 In Schedule 1 to the Superannuation Act 1972 (kinds of employment referred to in section 1 of that Act), under the italic heading “Royal Commissions and other Commissions” –

- (a) hepgorer “The Local Democracy and Boundary Commission for Wales”;
- (b) o flaen y cofnod ar gyfer “Development Commission” mewnosoder –
“Democracy and Boundary Commission Cymru”.

Deddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70)

- 34 (1) Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn adran 30 (cyfyngu ar geisiadau cymunedau yn ystod ac ar ôl adolygiadau) –
- (a) yn is-adran (1)(ba), yn lle “Local Democracy and Boundary Commission for Wales” rhodder “Democracy and Boundary Commission Cymru”;
 - (b) yn is-adran (3), yn lle “the Local Democracy and Boundary Commission for Wales” rhodder “the Democracy and Boundary Commission Cymru”.
- (3) Yn adran 74(3A) (newid enw sir etc.), yn lle “Local Democracy and Boundary Commission for Wales” rhodder “Democracy and Boundary Commission Cymru”.
- (4) Yn adran 76(2)(a) (newid enw cymuned), yn lle “Local Democracy and Boundary Commission for Wales” rhodder “Democracy and Boundary Commission Cymru”.

Deddf Anghymhwysu Tŷ'r Cyffredin 1975 (p. 24)

- 35 Yn Rhan 2 o Atodlen 1 i Ddeddf Anghymhwysu Tŷ'r Cyffredin 1975 (swyddi sy'n anghymhwysu rhag bod yn aelodau) –
- (a) o flaen y cofnod ar gyfer “Development Commission” mewnosoder –
“The Democracy and Boundary Commission Cymru.”;
 - (b) hepgorer “The Local Government Boundary Commission for Wales.”

Deddf Llywodraeth Leol 1992 (p. 19)

- 36 Yn Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1992 (diwygiadau sy'n ganlyniadol ar Ran 2), hepgorer paragraff 11.

Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (p. 38)

- 37 Ym mharagraff 4 o Ran 1 o Atodlen 17 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (archwilio etc. gyrff cyhoeddus Cymru), yn lle “Local Democracy and Boundary Commission for Wales” rhodder “Democracy and Boundary Commission Cymru”.

Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (p. 36)

- 38 Yn Rhan 6 o Atodlen 1 i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (awdurdodau cyhoeddus) –
- (a) ar ôl y cofnod ar gyfer “Defence Scientific Advisory Council”, mewnosoder –
“The Democracy and Boundary Commission Cymru.”;
 - (b) hepgorer “The Local Democracy and Boundary Commission for Wales.”

Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32)

- 39 Mae Deddf 2006 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

- (a) omit “The Local Democracy and Boundary Commission for Wales”;
- (b) before the entry for “Development Commission” insert –
“Democracy and Boundary Commission Cymru”.

Local Government Act 1972 (c. 70)

- 34 (1) The Local Government Act 1972 is amended as follows.
- (2) In section 30 (restriction on community applications during and after reviews) –
 - (a) in subsection (1)(ba), for “Local Democracy and Boundary Commission for Wales” substitute “Democracy and Boundary Commission Cymru”;
 - (b) in subsection (3), for “the Local Democracy and Boundary Commission for Wales” substitute “the Democracy and Boundary Commission Cymru”.
 - (3) In section 74(3A) (change of name of county etc.), for “Local Democracy and Boundary Commission for Wales” substitute “Democracy and Boundary Commission Cymru”.
 - (4) In section 76(2)(a) (change of name of community), for “Local Democracy and Boundary Commission for Wales” substitute “Democracy and Boundary Commission Cymru”.

House of Commons Disqualification Act 1975 (c. 24)

- 35 In Part 2 of Schedule 1 to the House of Commons Disqualification Act 1975 (offices disqualifying for membership) –
- (a) before the entry for “Development Commission” insert –
“The Democracy and Boundary Commission Cymru.”;
 - (b) omit “The Local Government Boundary Commission for Wales.”

Local Government Act 1992 (c. 19)

- 36 In Schedule 3 to the Local Government Act 1992 (amendments consequential on Part 2), omit paragraph 11.

Government of Wales Act 1998 (c. 38)

- 37 In paragraph 4 of Part 1 of Schedule 17 to the Government of Wales Act 1998 (audit etc. of Welsh public bodies), for “Local Democracy and Boundary Commission for Wales” substitute “Democracy and Boundary Commission Cymru”.

Freedom of Information Act 2000 (c. 36)

- 38 In Part 6 of Schedule 1 to the Freedom of Information Act 2000 (public authorities) –
- (a) after the entry for “Defence Scientific Advisory Council”, insert –
“The Democracy and Boundary Commission Cymru.”;
 - (b) omit “The Local Democracy and Boundary Commission for Wales.”

The Government of Wales Act 2006 (c. 32)

- 39 The 2006 Act is amended as follows.

- 40 Yn adran 148(2) (ystyr “cofnodion cyhoeddus Cymru”) –
- (a) ar ôl paragraff (c), mewnosoder –
- “(ca) the Democracy and Boundary Commission Cymru,”;
- (b) hepgorer paragraff (i).
- 41 Yn y tabl yn Rhan 2 o Atodlen 1A (swyddi sy’n anghymhwysu’r deiliad rhag bod yn Aelod o’r Senedd neu’n ymgeisydd mewn etholiad i fod yn Aelod o’r Senedd), hepgorer y cofnod ar gyfer “Local Democracy and Boundary Commission for Wales or Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru”.
- 42 Yn nhabl 1 ym mharagraff 35(3) o Atodlen 11 (darpariaethau trosiannol), hepgorer y cofnod ar gyfer adran 20(1) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (p. 41).

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (mccc 1)

- 43 Yn Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (cyrff cyhoeddus etc: safonau), yn y tabl –
- (a) o dan y pennawd “Cyffredinol”, ar ôl y cofnod ar gyfer “Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol” mewnosoder –

“Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (“The Democracy and Boundary Commission Cymru”)	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”;
---	--

- (b) hepgorer y cofnod ar gyfer “Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru”.

Deddf 2013

- 44 (1) Mae Deddf 2013 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn lle adran 1(2) (trosolwg), rhodder –
- “(2) Mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfansoddiad a swyddogaethau Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.”
- (3) Ym mhennawd Rhan 2, yn lle “Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru” rhodder “Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru”.
- (4) Yn Atodlen 1 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol) –
- (a) hepgorer paragraff 1(3)(b);
- (b) hepgorer paragraffau 3 a 4 a’r penawdau italic o’u blaenau.

Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (dccc 3)

- 45 Yn Atodlen 3 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (awdurdodau rhestredig), o dan y pennawd italic “Amrywiol” –
- (a) yn y lle priodol mewnosoder –
- “Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.”;
- (b) hepgorer “Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.”

40 In section 148(2) (meaning of “Welsh public records”) –

(a) after paragraph (c), insert –

“(ca) the Democracy and Boundary Commission Cymru,”;

(b) omit paragraph (i).

41 In the table in Part 2 of Schedule 1A (offices that disqualify the holder from being a Member of the Senedd or a candidate in an election to be a Member of the Senedd) omit the entry for “Local Democracy and Boundary Commission for Wales or Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru”.

42 In table 1 in paragraph 35(3) of Schedule 11 (transitional provisions), omit the entry for section 20(1) of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 (c. 41).

Welsh Language (Wales) Measure 2011 (nawm 1)

43 In Schedule 6 to the Welsh Language (Wales) Measure 2011 (public bodies etc: standards), in the table –

(a) under the heading “General”, after the entry for “Criminal Injuries Compensation Authority” insert –

“The Democracy and Boundary Commission Cymru (“Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru”)	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”;
---	--

(b) omit the entry for “Local Democracy and Boundary Commission for Wales”.

The 2013 Act

44 (1) The 2013 Act is amended as follows.

(2) For section 1(2) (overview), substitute –

“(2) Part 2 makes provision about the constitution and functions of the Democracy and Boundary Commission Cymru.”

(3) In the heading of Part 2, for “Local Democracy and Boundary Commission for Wales” substitute “Democracy and Boundary Commission Cymru”.

(4) In Schedule 1 (minor and consequential amendments) –

(a) omit paragraph 1(3)(b);

(b) omit paragraphs 3 and 4 and the italic headings before them.

Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019 (anaw 3)

45 In Schedule 3 to the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019 (listed authorities), under the italic heading “Miscellaneous” –

(a) at the appropriate place insert –

“The Democracy and Boundary Commission Cymru.”;

(b) omit “The Local Democracy and Boundary Commission for Wales.”

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1)

- 46 Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- 47 Yn adran 10(1) (dyletswydd i hysbysu pan fydd penderfyniad yn cael ei basio) yn lle “a’r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol” rhodder “a Chomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru”.
- 48 Yn adran 11 (adolygiad cychwynnol) –
- (a) yn is-adran (1), yn lle “Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru”, rhodder “Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru”;
 - (b) yn y pennawd, yn lle “y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol”, rhodder “Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru”.
- 49 Yn adran 138 (adolygiadau o drefniadau etholiadol) –
- (a) yn is-adran (1), yn lle “Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru”, rhodder “Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru”;
 - (b) yn is-adran (2)(a), yn lle “Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru”, rhodder “Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru”.
- 50 Ym mharagraff 1(1) o Atodlen 1 (adolygiadau cychwynnol o drefniadau etholiadol etc.), yn lle “Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru”, rhodder “Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru”.

Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 (dsc 1)

- 51 Ym mharagraff 18 o Atodlen 1 i Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 (awdurdodau contractio), yn lle “Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru” rhodder “Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru”.

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 1996 (O.S. 1996/1898)

- 52 Yn y tabl yn yr Atodlen i Orchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 1996 hepgorer y cofnod ar gyfer “Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru”.

Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 (O.S. 2001/341)

- 53 Yn rheoliad 101(2) o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001, yn lle “Local Democracy and Boundary Commission for Wales” rhodder “Democracy and Boundary Commission Cymru”.

Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (O.S. 2015/102)

- 54 Yn Atodlen 1 i Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (awdurdodau llywodraeth ganolog) –
- (a) ar ôl “Agricultural Land Tribunal for Wales”, mewnosoder –
“Democracy and Boundary Commission Cymru”;
 - (b) hepgorer “Local Democracy and Boundary Commission for Wales”.

Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 2) 2016 (O.S. 2016/182 (Cy. 76))

- 55 Yn Atodlen 6 i Reoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 2) 2016 –

Local Government and Elections (Wales) Act 2021 (asc 1)

- 46 Local Government and Elections (Wales) Act 2021 is amended as follows.
- 47 In section 10(1) (duty to notify when resolution passed) for “Local Democracy and Boundary Commission” substitute “Democracy and Boundary Commission Cymru”.
- 48 In section 11 (initial review) –
- (a) in subsection (1), for “Local Democracy and Boundary Commission for Wales”, substitute “Democracy and Boundary Commission Cymru”;
 - (b) in the heading, for “Local Democracy and Boundary Commission” substitute “Democracy and Boundary Commission Cymru”.
- 49 In section 138 (reviews of electoral arrangements) –
- (a) in subsection (1), for “Local Democracy and Boundary Commission for Wales”, substitute “Democracy and Boundary Commission Cymru”;
 - (b) in subsection (2)(a), for “Local Democracy and Boundary Commission for Wales”, substitute “Democracy and Boundary Commission Cymru”.
- 50 In paragraph 1(1) of Schedule 1 (initial reviews of electoral arrangements etc.), for “Local Democracy and Boundary Commission for Wales”, substitute “Democracy and Boundary Commission Cymru”.

Social Partnership and Public Procurement (Wales) Act 2023 (asc 1)

- 51 In paragraph 18 of Schedule 1 to the Social Partnership and Public Procurement (Wales) Act 2023 (contracting authorities), for “Local Democracy and Boundary Commission for Wales” substitute “Democracy and Boundary Commission Cymru”.

Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 1996 (S.I. 1996/1898)

- 52 In the table in the Schedule to the Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 1996 omit the entry for “Local Government Boundary Commission for Wales”.

Representation of the People (England and Wales) Regulations 2001 (S.I. 2001/341)

- 53 In regulation 101(2) of the Representation of the People (England and Wales) Regulations 2001, for “Local Democracy and Boundary Commission for Wales” substitute “Democracy and Boundary Commission Cymru”.

Public Contracts Regulations 2015 (S.I. 2015/102)

- 54 In Schedule 1 to the Public Contracts Regulations 2015 (central government authorities) –
- (a) after “Agricultural Land Tribunal for Wales”, insert –
“Democracy and Boundary Commission Cymru”;
 - (b) omit “Local Democracy and Boundary Commission for Wales”.

Welsh Language Standards (No 2) Regulations 2016 (S.I. 2016/182 (W. 76))

- 55 In Schedule 6 to the Welsh Language Standards (No. 2) Regulations 2016 –

- (a) yn y lle priodol, mewnosoder –
“Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (“The Democracy and Boundary Commission Cymru”)”;
- (b) hepgorer “Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol i Gymru (“The Local Democracy and Boundary Commission for Wales”)”.

Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2016 (O.S. 2016/694)

- 56 Hefgorer rheoliad 11(b) o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2016 (diwygio Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001).

Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru) (Diwygio) 2016 (O.S. 2016/970 (Cy. 239))

- 57 Mae Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru) (Diwygio) 2016 wedi ei ddirymu.

Gorchymyn Blwydd-daliadau (Derbyn i Atodlen 1 i Ddeddf Blwydd-daliadau 1972) 2017 (O.S. 2017/1261)

- 58 Hefgorer erthygl 8(a)(ii) o Orchymyn Blwydd-daliadau (Derbyn i Atodlen 1 i Ddeddf Blwydd-daliadau 1972) 2017 (diwygio Atodlen 1 i Ddeddf Blwydd-daliadau 1972 (p. 11) i adlewyrchu newidiadau i enwau).

- (a) at the appropriate place insert –
“The Democracy and Boundary Commission Cymru (“Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru”)”;
- (b) omit “The Local Democracy and Boundary Commission for Wales (“Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol i Gymru”)”.

Representation of the People (England and Wales) (Amendment) Regulations 2016 (S.I. 2016/694)

- 56 Omit regulation 11(b) of the Representation of the People (England and Wales) (Amendment) Regulations 2016 (amendment to the Representation of the People (England and Wales) Regulations 2001).

Government of Wales Act 1998 (Local Democracy and Boundary Commission for Wales) (Amendment) Order 2016 (S.I. 2016/970 (W. 239))

- 57 The Government of Wales Act 1998 (Local Democracy and Boundary Commission for Wales) (Amendment) Order 2016 is revoked.

Superannuation (Admission to Schedule 1 to the Superannuation Act 1972) Order 2017 (S.I. 2017/1261)

- 58 Omit article 8(a)(ii) of the Superannuation (Admission to Schedule 1 to the Superannuation Act 1972) Order 2017 (amendments to Schedule 1 to the Superannuation Act 1972 (c. 11) to reflect changes of name).

ATODLEN 2
(a gyflwynir gan adran 17)

ETHOLAETHAU'R SENEDD AR GYFER YR ETHOLIAD CYFFREDINOL CYNTAF AR
ÔL 6 EBRILL 2026

Etholiadau y mae'r Atodlen hon yn gymwys iddynt

- 1 Mae'r Atodlen hon yn gwneud darpariaeth ynghylch yr etholaethau yr etholir Aelodau o'r Senedd drostynt ("etholaethau'r Senedd") mewn etholiad cyffredinol y cynhelir y bleidlais ar ei gyfer ar ôl 6 Ebrill 2026 a chyn i'r set gyntaf o reoliadau a wneir o dan adran 49J o Ddeddf 2013 gymryd effaith (neu y newidir yr etholaethau fel arall o dan unrhyw ddeddfiad).

Etholaethau'r Senedd ac adolygiad ffiniau 2026

- 2 (1) Rhaid i ardal pob etholaeth Senedd gynnwys ardaloedd cyfunedig dwy o etholaethau seneddol y DU yng Nghymru sy'n gyffiniol.
- (2) Rhaid i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ("y Comisiwn") gynnal adolygiad ("adolygiad ffiniau 2026") yn unol â'r Atodlen hon i benderfynu –
- (a) pa etholaethau seneddol y DU yng Nghymru sy'n gyffiniol sydd i'w cyfuno i greu ardaloedd yr 16 o etholaethau'r Senedd;
- (b) enwau etholaethau'r Senedd;
- (c) pa un a yw pob etholaeth Senedd yn etholaeth sirol neu'n etholaeth fwrdeistrefol.

Hysbysiad cychwyn adolygiad ffiniau 2026

- 3 (1) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cychwyn adolygiad ffiniau 2026, rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi hysbysiad –
- (a) yn datgan bod y Comisiwn wedi cychwyn yr adolygiad, a
- (b) yn pennu'r dyddiad y cychwynnodd yr adolygiad arno.
- (2) Yn yr Atodlen hon, ystyr "dyddiad yr adolygiad" yw'r dyddiad a bennir o dan is-baragraff (1)(b).

Y materion y caiff y Comisiwn eu hystyried yn adolygiad ffiniau 2026

- 4 Wrth ystyried y cyfuniadau posibl o etholaethau seneddol y DU yng Nghymru, caiff y Comisiwn ystyried –
- (a) ffiniau llywodraeth leol sy'n bodoli ar ddyddiad yr adolygiad;
- (b) ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol faint, siâp a hygyrchedd etholaeth Senedd arfaethedig;
- (c) unrhyw gwllwm lleol (gan gynnwys cwlwm lleol sy'n gysylltiedig â'r defnydd o'r Gymraeg) a fyddai'n cael ei dorri gan y cyplysiadau arfaethedig.

SCHEDULE 2
(Introduced by section 17)

SENEDD CONSTITUENCIES FOR FIRST GENERAL ELECTION AFTER 6 APRIL 2026

Elections in relation to which this Schedule applies

- 1 This Schedule makes provision about the constituencies for which Members of the Senedd will be elected (“the Senedd constituencies”) at a general election the poll for which is held after 6 April 2026 and before the first set of regulations made under section 49J of the 2013 Act takes effect (or the constituencies are otherwise changed under any enactment).

Senedd constituencies and the 2026 boundary review

- 2 (1) The area of each Senedd constituency must consist of the combined areas of two contiguous UK parliamentary constituencies in Wales.
- (2) The Democracy and Boundary Commission Cymru (“the Commission”) must conduct a review (“the 2026 boundary review”) in accordance with this Schedule to determine—
- (a) which contiguous UK parliamentary constituencies in Wales are to be combined to create the areas of the 16 Senedd constituencies,
 - (b) the names of the Senedd constituencies, and
 - (c) whether each Senedd constituency is a county constituency or a borough constituency.

Notice of commencement of 2026 boundary review

- 3 (1) As soon as reasonably practicable after commencing the 2026 boundary review, the Commission must publish a notice—
- (a) stating that the Commission has commenced the review, and
 - (b) specifying the date on which the review commenced.
- (2) In this Schedule, “review date” means the date specified in the notice under subparagraph (1)(b).

Matters the Commission may take into account in the 2026 boundary review

- 4 When considering the possible combinations of UK parliamentary constituencies in Wales, the Commission may take into account—
- (a) local government boundaries that exist on the review date;
 - (b) special geographical considerations, including in particular the size, shape and accessibility of a proposed Senedd constituency;
 - (c) any local ties (including local ties connected to the use of the Welsh language) that would be broken by the proposed pairings.

Penderfynu ar enwau etholaethau'r Senedd

- 5 (1) Rhaid i bob etholaeth Senedd gael enw unigol at ddibenion adnabod yr etholaeth mewn cyfathrebiad drwy'r Gymraeg a'r Saesneg, oni bai bod y Comisiwn yn ystyried y byddai hyn yn annerbyniol (os felly caniateir i'r etholaeth gael enwau gwahanol at ddibenion ei hadnabod mewn cyfathrebiad drwy'r Gymraeg a'r Saesneg).
- (2) Cyn gwneud ei adroddiad cychwynnol (gweler paragraff 6) rhaid i'r Comisiwn –
- (a) ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff yr enwau arfaethedig ar gyfer adnabod etholaethau'r Senedd, a
 - (b) ystyried ei gynigion gan roi sylw i unrhyw sylwadau a gafwyd gan y Comisiynydd ar orgraff yr enwau arfaethedig.
- (3) Mae gofyniad o dan yr Atodlen hon i nodi enw neu enw arfaethedig etholaeth Senedd mewn adroddiad, pan fo'r Comisiwn yn ystyried y dylai'r etholaeth gael enwau gwahanol at ddibenion ei hadnabod mewn cyfathrebiad drwy'r Gymraeg a'r Saesneg, yn ofyniad i nodi'r ddau enw –
- (a) yn fersiwn Gymraeg yr adroddiad, a
 - (b) yn fersiwn Saesneg yr adroddiad.

Adroddiad cychwynnol ar adolygiad ffiniau 2026 a'r cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau

- 6 (1) Ar ôl cymryd y camau ym mharagraffau 3(1) a 5(2) rhaid i'r Comisiwn wneud adroddiad cychwynnol yn nodi'r etholaethau Senedd arfaethedig, gan gynnwys –
- (a) pa etholaethau seneddol y DU yng Nghymru sy'n gyffiniol sydd i'w cyfuno i greu ardaloedd yr 16 o etholaethau'r Senedd, a
 - (b) enw arfaethedig pob etholaeth Senedd.
- (2) Rhaid i'r Comisiwn –
- (a) cyhoeddi'r adroddiad cychwynnol,
 - (b) hysbysu unrhyw berson y mae'r Comisiwn yn ystyried ei fod yn briodol ynghylch sut i gyrchu'r adroddiad,
 - (c) gwahodd sylwadau ar yr adroddiad, a
 - (d) hysbysu unrhyw berson y mae'r Comisiwn yn ystyried ei fod yn briodol ynghylch y cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau.
- (3) Yn ystod y cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg.
- (4) Mae'r cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau yn gyfnod o bedair wythnos, gan ddechrau â'r dyddiad y cyhoeddir yr adroddiad cychwynnol.

Ail adroddiad ar adolygiad ffiniau 2026 a'r ail gyfnod ar gyfer sylwadau

- 7 (1) Ar ddiwedd y cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau rhaid i'r Comisiwn –
- (a) cyhoeddi dogfen sy'n nodi unrhyw sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod hwnnw (gan gynnwys unrhyw sylwadau ar yr adroddiad cychwynnol a wnaed gan Gomisiynydd y Gymraeg pan ymgynghorwyd â'r Comisiynydd o dan baragraff 6(3)),

Determining the names of the Senedd constituencies

- 5 (1) Each Senedd constituency must have a single name for the purposes of identifying the constituency in communication through Welsh and English, unless the Commission considers this would be unacceptable (in which case the constituency may have different names for the purposes of identifying it in communication through Welsh and English).
- (2) Before making its initial report (see paragraph 6) the Commission must –
- (a) consult the Welsh Language Commissioner on the orthography of the names proposed for identifying the Senedd constituencies, and
 - (b) consider its proposals having regard to any representations received from the Commissioner on the orthography of the proposed names.
- (3) A requirement under this Schedule to set out the name or proposed name of a Senedd constituency in a report is, where the Commission considers the constituency should have different names for the purposes of identifying it in communication through Welsh and English, a requirement to set out both names –
- (a) in the Welsh language version of the report, and
 - (b) in the English language version of the report.

Initial report on the 2026 boundary review and first period for representations

- 6 (1) After taking the steps in paragraphs 3(1) and 5(2), the Commission must make an initial report setting out the proposed Senedd constituencies, including –
- (a) which contiguous UK parliamentary constituencies in Wales are to be combined to create the areas of the 16 Senedd constituencies, and
 - (b) the proposed name of each Senedd constituency.
- (2) The Commission must –
- (a) publish the initial report,
 - (b) inform any person it considers appropriate of how to access the report,
 - (c) invite representations on the report, and
 - (d) notify any person it considers appropriate of the first period for representations.
- (3) During the first period for representations the Commission must consult the Welsh Language Commissioner.
- (4) The first period for representations is a period of four weeks, beginning with the date on which the initial report is published.

Second report on the 2026 boundary review and second period for representations

- 7 (1) At the end of the first period for representations the Commission must –
- (a) publish a document setting out any representations received during that period (including any representations on the initial report made by the Welsh Language Commissioner when consulted under paragraph 6(3)),

- (b) ystyried ei gynigion gan roi sylw i'r sylwadau hynny, ac
 - (c) os yw'r Comisiwn, ar ôl ystyried ei gynigion, yn ystyried unrhyw newidiadau i enw arfaethedig etholaeth Senedd fel y'i nodir yn yr adroddiad cychwynnol, rhaid iddo –
 - (i) ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff yr enw arfaethedig, a
 - (ii) rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wnaed gan y Comisiynydd ar orgraff yr enw arfaethedig.
- (2) Ar ôl cymryd y camau yn is-baragraff (1), rhaid i'r Comisiwn wneud ail adroddiad yn nodi'r etholaethau Senedd arfaethedig, gan gynnwys –
- (a) pa etholaethau seneddol y DU yng Nghymru sy'n gyffiniol sydd i'w cyfuno i greu ardaloedd yr 16 o etholaethau'r Senedd,
 - (b) enw arfaethedig pob etholaeth, ac
 - (c) manylion unrhyw newidiadau i'r cynigion yn yr adroddiad cychwynnol, ac esboniad ynghylch pam y gwnaed y newidiadau hynny.
- (3) Rhaid i'r Comisiwn –
- (a) cyhoeddi'r ail adroddiad,
 - (b) hysbysu unrhyw berson y mae'r Comisiwn yn ystyried ei fod yn briodol ynghylch sut i gyrchu'r adroddiad,
 - (c) gwahodd sylwadau ar yr adroddiad, a
 - (d) hysbysu unrhyw berson y mae'r Comisiwn yn ystyried ei fod yn briodol ynghylch yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau.
- (4) Yn ystod yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg.
- (5) Mae'r ail gyfnod ar gyfer sylwadau yn gyfnod o bedair wythnos, gan ddechrau â'r dyddiad y cyhoeddir yr ail adroddiad.
- (6) Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw rhaid i'r Comisiwn –
- (a) cyhoeddi dogfen sy'n nodi unrhyw sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod hwnnw (gan gynnwys unrhyw sylwadau ar yr ail adroddiad a wnaed gan Gomisiynydd y Gymraeg pan ymgynghorwyd â'r Comisiynydd o dan is-baragraff (4)),
 - (b) ystyried ei gynigion gan roi sylw i'r sylwadau hynny, ac
 - (c) os yw'r Comisiwn, ar ôl ystyried ei gynigion, yn ystyried unrhyw newidiadau i enw arfaethedig etholaeth Senedd fel y'i nodir yn yr ail adroddiad, rhaid iddo –
 - (i) ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff yr enw arfaethedig, a
 - (ii) rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wnaed gan y Comisiynydd ar orgraff yr enw arfaethedig.

Adroddiad terfynol ar adolygiad ffiniau 2026

8 (1) Cyn 1 Ebrill 2025 rhaid i'r Comisiwn –

- (a) gwneud adroddiad terfynol a chyhoeddi'r adroddiad hwnnw, a
- (b) anfon yr adroddiad hwnnw at Weinidogion Cymru.

- (b) consider its proposals having regard to those representations, and
 - (c) if, having considered its proposals, it is considering any changes to the proposed name of a Senedd constituency as set out in the initial report –
 - (i) consult the Welsh Language Commissioner on the orthography of the proposed name, and
 - (ii) have regard to any representations made by the Commissioner on the orthography of the proposed name.
- (2) After taking the steps in sub-paragraph (1), the Commission must make a second report setting out the proposed Senedd constituencies, including –
- (a) which contiguous UK parliamentary constituencies in Wales are to be combined to create the areas of the 16 Senedd constituencies,
 - (b) the proposed name of each constituency, and
 - (c) details of any changes to the proposals in the initial report, and an explanation of why those changes have been made.
- (3) The Commission must –
- (a) publish the second report,
 - (b) inform any person it considers appropriate of how to access the report,
 - (c) invite representations on the report, and
 - (d) notify any person it considers appropriate of the second period for representations.
- (4) During the second period for representations the Commission must consult the Welsh Language Commissioner.
- (5) The second period for representations is a period of four weeks, beginning with the date on which the second report is published.
- (6) At the end of that period the Commission must –
- (a) publish a document setting out any representations received during that period (including any representations on the second report made by the Welsh Language Commissioner when consulted under sub-paragraph (4)),
 - (b) consider its proposals having regard to those representations, and
 - (c) if, having considered its proposals, it is considering any changes to the proposed name of a Senedd constituency as set out in the second report –
 - (i) consult the Welsh Language Commissioner on the orthography of the proposed name, and
 - (ii) have regard to any representations made by the Commissioner on the orthography of the proposed name.

Final report on the 2026 boundary review

- 8 (1) Before 1 April 2025 the Commission must –
- (a) make and publish a final report, and
 - (b) send it to the Welsh Ministers.

- (2) Rhaid i'r adroddiad terfynol nodi etholaethau'r Senedd, gan gynnwys—
 - (a) pa etholaethau seneddol y DU yng Nghymru sy'n gyffiniol sydd i'w cyfuno i greu ardaloedd yr 16 o etholaethau'r Senedd,
 - (b) enw pob etholaeth, ac
 - (c) pa un a yw pob etholaeth yn etholaeth sirol neu'n etholaeth fwrdeistrefol.
- (3) Rhaid i'r adroddiad terfynol hefyd bennu manylion unrhyw newidiadau i'r cynigion a nodir yn yr ail adroddiad, ac esbonio pam y gwnaed y newidiadau hynny.
- (4) Nid yw methiant gan y Comisiwn i gyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru cyn 1 Ebrill 2025 yn annilysu'r adroddiad.
- (5) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i Weinidogion Cymru gael yr adroddiad terfynol, rhaid iddynt ei osod gerbron y Senedd.

Gweithredu'r adroddiad terfynol gan Weinidogion Cymru

- 9 (1) Rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn rhoi effaith i'r penderfyniadau yn adroddiad terfynol y Comisiwn—
 - (a) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl gosod yr adroddiad gerbron y Senedd, a
 - (b) sut bynnag, oni bai bod amgylchiadau eithriadol, cyn diwedd y cyfnod o 14 o wythnosau sy'n dechrau â'r dyddiad y gosodir yr adroddiad terfynol gerbron y Senedd.
- (2) Pan na fo rheoliadau wedi eu gwneud cyn diwedd y cyfnod a grybwyllir yn is-baragraff (1)(b), rhaid i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron y Senedd yn nodi'r amgylchiadau eithriadol.
- (3) Rhaid i ddatganiad o dan is-baragraff (2) gael ei osod cyn diwedd y cyfnod o 14 o wythnosau sy'n dechrau â'r dyddiad y gosodir yr adroddiad terfynol gerbron y Senedd.
- (4) Rhaid i ddatganiadau pellach sy'n nodi'r amgylchiadau eithriadol gael eu gosod gerbron y Senedd cyn diwedd pob cyfnod dilynol o bedair wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod y gosodwyd y datganiad blaenorol, hyd nes bod y rheoliadau wedi eu gwneud.
- (5) Caiff rheoliadau o dan y paragraff hwn wneud darpariaeth ar gyfer unrhyw faterion y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn ddeilliadol i'r penderfyniadau yn yr adroddiad terfynol, neu'n ganlyniadol arnynt.
- (6) Rhaid i reoliadau o dan y paragraff hwn gael eu gwneud drwy offeryn statudol.
- (7) Rhaid i offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan y paragraff hwn gael ei osod gerbron y Senedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r rheoliadau gael eu gwneud.
- (8) Nid yw dod i rym y rheoliadau yn effeithio ar ddychwelyd Aelod o'r Senedd i'r Senedd, na chyfansoddiad y Senedd, hyd nes y diddymir y Senedd mewn cysylltiad â'r etholiad cyffredinol cyntaf i'w gynnal ar ôl 6 Ebrill 2026.

- (2) The final report must set out the Senedd constituencies, including —
 - (a) which contiguous UK parliamentary constituencies in Wales are to be combined to create the areas of the 16 Senedd constituencies,
 - (b) the name of each constituency, and
 - (c) whether each constituency is a county constituency or borough constituency.
- (3) The final report must also specify details of any changes to the proposals set out in the second report, and explain why those changes have been made.
- (4) A failure by the Commission to submit a report to the Welsh Ministers before 1 April 2025 does not invalidate the report.
- (5) As soon as reasonably practicable after receiving the final report, the Welsh Ministers must lay it before the Senedd.

Implementation of final report by the Welsh Ministers

- 9 (1) The Welsh Ministers must make regulations giving effect to the determinations in the Commission's final report —
 - (a) as soon as reasonably practicable after laying the report before the Senedd, and
 - (b) in any event, unless there are exceptional circumstances, before the end of the period of 14 weeks beginning with the date the final report is laid before the Senedd.
- (2) Where regulations are not made before the end of the period mentioned in sub-paragraph (1)(b), the Welsh Ministers must lay a statement before the Senedd setting out the exceptional circumstances.
- (3) A statement under sub-paragraph (2) must be laid before the end of the period of 14 weeks beginning with the date the final report is laid before the Senedd.
- (4) Further statements setting out the exceptional circumstances must be laid before the Senedd before the end of each subsequent period of four weeks beginning with the day on which the previous statement was laid, until the regulations are made.
- (5) Regulations under this paragraph may make provision for any matters that the Welsh Ministers consider are incidental to, or consequential on, the determinations in the final report.
- (6) Regulations under this paragraph must be made by statutory instrument.
- (7) A statutory instrument containing regulations under this paragraph must be laid before the Senedd as soon as reasonably practicable after the regulations are made.
- (8) The coming into force of the regulations does not affect the return of a Member of the Senedd to the Senedd, or the constitution of the Senedd, until the dissolution of the Senedd in connection with the first general election to be held after 6 April 2026.

Addasu'r adroddiad terfynol gan y Comisiwn

- 10 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys –
- (a) pan fo Gweinidogion Cymru wedi gosod yr adroddiad terfynol gerbron y Senedd o dan baragraff 8(5),
 - (b) pan fo'r Comisiwn yn ystyried bod angen addasu'r adroddiad i gywiro gwall neu wallau mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r materion a grybwyllir ym mharagraff 8(2), ac
 - (c) pan na fo'r rheoliadau wedi eu gwneud hyd hynny o dan baragraff 9.
- (2) Caiff y Comisiwn anfon datganiad at Weinidogion Cymru yn pennu –
- (a) yr addasiadau a wnaed i'r adroddiad, a
 - (b) y rhesymau dros wneud yr addasiadau hynny.
- (3) Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi datganiad a anfonir at Weinidogion Cymru o dan is-baragraff (2).
- (4) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i Weinidogion Cymru gael datganiad, rhaid iddynt ei osod gerbron y Senedd.
- (5) Pan fo datganiad wedi ei anfon at Weinidogion Cymru, rhaid i'r rheoliadau a wneir o dan baragraff 9 roi effaith i'r adroddiad terfynol gyda'r addasiadau a bennir yn y datganiad.

Dirprwyo swyddogaethau gan y Comisiwn o dan yr Atodlen hon

- 11 Mae adran 13(1) o Ddeddf 2013 (dirprwyo) i'w darllen fel pe bai'n cynnwys cyfeiriad at swyddogaethau'r Comisiwn o dan yr Atodlen hon (ac yn unol â hynny caniateir dirprwyo'r swyddogaethau hynny o dan yr adran honno).

Ni chaff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddydau i'r Comisiwn ynghylch swyddogaethau o dan yr Atodlen hon

- 12 Nid yw adran 14 o Ddeddf 2013 (cyfarwyddiadau) yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r Comisiwn sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau o dan yr Atodlen hon.

Dehongli

- 13 Yn yr Atodlen hon –

mae i "y Comisiwn" (*"the Commission"*) yr ystyr a roddir ym mharagraff 2(2);

mae i "dyddiad yr adolygiad" (*"review date"*) yr ystyr a roddir gan baragraff 3;

mae "etholaeth Senedd" (*"Senedd constituency"*) i'w ddehongli yn unol â pharagraff 1;

ystyr "etholaeth seneddol y DU" (*"UK parliamentary constituency"*) yw etholaeth, a bennir yng Ngorchymyn Etholaethau Seneddol 2023 (O.S. 2023/1230), sy'n dychwelyd aelod o Senedd y Deyrnas Unedig;

ystyr "ffiniau llywodraeth leol" (*"local government boundaries"*) yw ffiniau siroedd, ffiniau bwrdeistrefi sirol, ffiniau wardiau etholiadol, ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol yng Nghymru.

Modification of final report by the Commission

- 10 (1) This paragraph applies where –
- (a) the Welsh Ministers have laid the final report before the Senedd under paragraph 8(5),
 - (b) the Commission considers that the report needs to be modified to correct an error or errors in respect of any of the matters mentioned in paragraph 8(2), and
 - (c) regulations have not yet been made under paragraph 9.
- (2) The Commission may send a statement to the Welsh Ministers specifying –
- (a) the modifications of the report, and
 - (b) the reasons for those modifications.
- (3) The Commission must publish a statement sent to the Welsh Ministers under subparagraph (2).
- (4) As soon as reasonably practicable after receiving a statement, the Welsh Ministers must lay it before the Senedd.
- (5) Where a statement has been sent to the Welsh Ministers, the regulations made under paragraph 9 must give effect to the final report with the modifications specified in the statement.

Delegation by the Commission of functions under this Schedule

- 11 Section 13(1) of the 2013 Act (delegation) is to be read as if it contained a reference to the Commission's functions under this Schedule (and accordingly those functions may be delegated under that section).

Welsh Ministers may not give directions to Commission relating to functions under this Schedule

- 12 Section 14 of the 2013 Act (directions) does not permit the Welsh Ministers to give the Commission a direction relating to the exercise of its functions under this Schedule.

Interpretation

- 13 In this Schedule –
- “the Commission” (“*y Comisiwn*”) has the meaning given in paragraph 2(2);
 - “local government boundaries” (“*ffiniau llywodraeth leol*”) are the boundaries of counties, county boroughs, electoral wards, communities and community wards in Wales;
 - “review date” (“*dyddiad yr adolygiad*”) has the meaning given in paragraph 3;
 - “Senedd constituency” (“*etholaeth Senedd*”) is to be interpreted in accordance with paragraph 1;
 - “UK parliamentary constituency” (“*etholaeth seneddol y DU*”) means a constituency, specified in the Parliamentary Constituencies Order 2023 (S.I. 2023/1230), returning a member of Parliament of the United Kingdom.

- 14 Pan fo'r Atodlen hon yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i gyhoeddi hysbysiad, adroddiad neu ddogfen arall, rhaid i'r hysbysiad, adroddiad neu ddogfen arall gael ei gyhoeddi neu ei chyhoeddi—
- (a) ar wefan y Comisiwn, a
 - (b) mewn unrhyw fodd arall y mae'r Comisiwn yn ystyried ei fod yn briodol.

- 14 Where this Schedule imposes a duty on the Commission to publish a notice, report or other document, the notice, report or other document must be published –
- (a) on the Commission’s website, and
 - (b) in such other manner as the Commission considers appropriate.

ATODLEN 3
(a gyflwynir gan adran 18)

RHAN NEWYDD 3A O DDEDDF 2013

Rhan 3A o Ddeddf 2013

1 Yn Neddf 2013, ar ôl Rhan 3 mewnosoder –

“RHAN 3A

ADOLYGIADAU O FFINIAU ETHOLAETHAU'R SENEDD

49A Adolygiadau o ffiniau etholaethau'r Senedd

- (1) Rhaid i'r Comisiwn gynnal adolygiad o ffiniau etholaethau'r Senedd unwaith ym mhob cyfnod adolygu.
- (2) Adolygiad o ffiniau etholaethau'r Senedd yw adolygiad o etholaethau'r Senedd at ddiben penderfynu a ddylai'r ffiniau hynny newid er mwyn rhoi effaith i'r rheolau a nodir yn adran 49C.
- (3) Os yw'r Comisiwn yn penderfynu yn ystod adolygiad y dylai ffiniau etholaeth Senedd newid, rhaid i'r Comisiwn hefyd benderfynu –
 - (a) yr hyn ddylai fod yr enwau ar yr etholaethau yr effeithir arnynt;
 - (b) pa un a yw pob etholaeth yr effeithir arni yn etholaeth sirol neu'n etholaeth fwrdeistrefol.
- (4) Ond os yw'r Comisiwn yn penderfynu yn ystod adolygiad, er na ddylai ffiniau etholaeth Senedd newid, y dylai enw'r etholaeth newid neu y dylai ei dynodiad yn etholaeth sirol neu'n etholaeth fwrdeistrefol newid, caiff y Comisiwn benderfynu –
 - (a) yr hyn ddylai fod yr enw ar yr etholaeth;
 - (b) pa un a ddylai fod yn etholaeth sirol neu'n etholaeth fwrdeistrefol.
- (5) At ddiben is-adran (1), ystyr “cyfnod adolygu” yw –
 - (a) y cyfnod sy'n dechrau ag 1 Ebrill 2025 ac sy'n dod i ben â 30 Tachwedd 2028,
 - (b) y cyfnod o 8 mlynedd sy'n dechrau ag 1 Rhagfyr 2028, ac
 - (c) pob cyfnod dilynol o 8 mlynedd.

49B Hysbysiad cychwyn adolygiad ffiniau etholaethau'r Senedd

- (1) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cychwyn adolygiad o ffiniau etholaethau'r Senedd, rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi hysbysiad –
 - (a) yn datgan bod y Comisiwn wedi cychwyn adolygiad, a

SCHEDULE 3
(Introduced by section 18)

NEW PART 3A OF THE 2013 ACT

Part 3A of the 2013 Act

1 In the 2013 Act, after Part 3 insert –

“PART 3A

SENEDD CONSTITUENCY BOUNDARY REVIEWS

49A Senedd constituency boundary reviews

- (1) The Commission must conduct a Senedd constituency boundary review once in every review period.
- (2) A Senedd constituency boundary review is a review of the Senedd constituencies for the purpose of determining whether those boundaries should change in order to give effect to the rules set out in section 49C.
- (3) If in the course of a review the Commission determines that the boundaries of a Senedd constituency should change, the Commission must also determine –
 - (a) what the names of the affected constituencies should be;
 - (b) whether each affected constituency should be a county constituency or a borough constituency.
- (4) But if in the course of a review the Commission determines that, while the boundaries of a Senedd constituency should not change, the name of the constituency or its designation as a county constituency or a borough constituency should change, it may determine –
 - (a) what the name of the constituency should be;
 - (b) whether it should be a county constituency or a borough constituency.
- (5) For the purpose of subsection (1), “review period” means –
 - (a) the period beginning with 1 April 2025 and ending with 30 November 2028,
 - (b) the period of 8 years beginning with 1 December 2028, and
 - (c) each subsequent period of 8 years.

49B Notice of commencement of Senedd constituency boundary review

- (1) As soon as reasonably practicable after commencing a Senedd constituency boundary review, the Commission must publish a notice –
 - (a) stating that the Commission has commenced a review, and

- (b) yn pennu'r dyddiad y cychwynnodd yr adolygiad arno.
- (2) Yn y Rhan hon, ystyr "dyddiad yr adolygiad" yw'r dyddiad a bennir yn yr hysbysiad o dan is-adran (1)(b).

49C Rheolau ynghylch etholaethau

- (1) Rhaid i'r etholyddiaeth ar gyfer pob etholaeth Senedd fod yn—
- (a) dim llai na 90% o'r cwota etholiadol, a
 - (b) dim mwy na 110% o'r cwota etholiadol.
- (2) Wrth ystyried, yn ystod adolygiad o ffiniau etholaethau'r Senedd, pa un a ddylid gwneud newidiadau i etholaethau'r Senedd, a pha newidiadau y dylid eu gwneud—
- (a) caiff y Comisiwn roi sylw i—
 - (i) ffiniau llywodraeth leol sy'n bodoli neu sy'n ddarpar ffiniau ar ddyddiad yr adolygiad;
 - (ii) ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol faint, siâp a hygyrchedd etholaeth Senedd arfaethedig neu etholaeth Senedd bresennol;
 - (iii) unrhyw gwllwm lleol (gan gynnwys cwllwm lleol sy'n gysylltiedig â'r defnydd o'r Gymraeg) a fyddai'n cael ei dorri gan y newidiadau hynny; ond
 - (b) sut bynnag, rhaid i'r Comisiwn—
 - (i) ceisio sicrhau y gwneir cyn lleied o newidiadau â phosibl i etholaethau'r Senedd sy'n bodoli ar ddyddiad yr adolygiad, a
 - (ii) rhoi sylw i'r anghyfleustra a achosir drwy wneud newidiadau i etholaethau'r Senedd.
- (3) At ddibenion is-adran (1)—
- (a) yr etholyddiaeth yw cyfanswm nifer yr etholwyr llywodraeth leol, a
 - (b) y cwota etholiadol yw etholyddiaeth Cymru wedi ei rannu ag 16 (sef nifer etholaethau'r Senedd), ac
- at ddibenion paragraff (a), etholwr llywodraeth leol yw person sydd wedi ei gofrestru yn y fersiwn berthnasol o'r gofrestr o etholwyr llywodraeth leol mewn cyfeiriad o fewn etholaeth Senedd.
- (4) Y fersiwn berthnasol o'r gofrestr o etholwyr llywodraeth leol, ar ddyddiad yr adolygiad, yw'r fersiwn ddiweddaraf a gyhoeddwyd o dan adran 13(1)(a) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (p. 2).
- (5) Yn achos ffin llywodraeth leol sy'n ddarpar ffin ar ddyddiad yr adolygiad, y ffin honno (yn hytrach nag unrhyw ffin sy'n bodoli eisoes a ddisodlir ganddi) yw'r ffin y mae rhaid ei hystyried o dan is-adran (2)(a)(i).

- (b) specifying the date on which the review commenced.
- (2) In this Part, “review date” means the date specified in the notice under subsection (1)(b).

49C Constituency rules

- (1) The electorate for each Senedd constituency must be –
 - (a) no less than 90% of the electoral quota, and
 - (b) no more than 110% of the electoral quota.
- (2) When considering during a Senedd constituency boundary review whether there should be changes to the Senedd constituencies, and what those changes should be –
 - (a) the Commission may have regard to –
 - (i) local government boundaries that exist or are prospective on the review date;
 - (ii) special geographical considerations, including in particular the size, shape and accessibility of a proposed or existing Senedd constituency;
 - (iii) any local ties (including local ties connected to the use of the Welsh language) that would be broken by such changes; but
 - (b) in any event the Commission must –
 - (i) seek to minimise the amount of change to the Senedd constituencies that exist on the review date, and
 - (ii) have regard to the inconveniences caused by making changes to the Senedd constituencies.
- (3) For the purposes of subsection (1) –
 - (a) the electorate is the total number of local government electors, and
 - (b) the electoral quota is the electorate of Wales divided by 16 (which is the number of Senedd constituencies), andfor the purposes of paragraph (a), a local government elector is a person registered in the relevant version of the register of local government electors at an address within a Senedd constituency.
- (4) The relevant version of the register of local government electors is the version that is, on the review date, the most recent version published under section 13(1)(a) of the Representation of the People Act 1983 (c. 2).
- (5) In the case of a local government boundary that is prospective on the review date, it is that boundary (rather than any existing boundary that it replaces) that must be taken into account under subsection (2)(a)(i).

- (6) Mae ffin llywodraeth leol yn “ddarpar ffin” ar ddyddiad yr adolygiad –
- (a) os yw’r ffin, ar y dyddiad hwnnw, wedi ei phennu mewn darpariaeth mewn –
 - (i) deddfwriaeth sylfaenol, neu
 - (ii) offeryn a wneir o dan ddeddfwriaeth sylfaenol, a
 - (b) os nad yw’r ddarpariaeth sy’n pennu’r ffin mewn grym hyd hynny at bob diben ar y dyddiad hwnnw.
- (7) Yn is-adran (6), ystyr “deddfwriaeth sylfaenol” yw –
- (a) Deddf a ddeddfir o dan Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32);
 - (b) Mesur a ddeddfwyd o dan Ran 3 o’r Ddeddf honno;
 - (c) Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig.

49D Penderfynu ar enwau etholaethau’r Senedd

- (1) Rhaid i bob etholaeth Senedd gael enw unigol at ddibenion adnabod yr etholaeth mewn cyfathrebiad drwy’r Gymraeg a’r Saesneg, oni bai bod y Comisiwn yn ystyried y byddai hyn yn annerbyniol (os felly caniateir i’r etholaeth gael enwau gwahanol at ddibenion ei hadnabod mewn cyfathrebiad drwy’r Gymraeg a’r Saesneg).
- (2) Cyn gwneud ei adroddiad cychwynnol (gweler adran 49E) rhaid i’r Comisiwn, os yw’n bwriadu gwneud cynnig yn ymwneud ag enw etholaeth Senedd –
 - (a) ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff yr enw arfaethedig, a
 - (b) ystyried ei gynnig gan roi sylw i unrhyw sylwadau gan y Comisiynydd ar orgraff yr enw arfaethedig.
- (3) Mae gofyniad o dan y Rhan hon i nodi enw neu enw arfaethedig etholaeth Senedd mewn adroddiad, pan fo’r Comisiwn yn ystyried y dylai’r etholaeth gael enwau gwahanol at ddibenion ei hadnabod mewn cyfathrebiad drwy’r Gymraeg a’r Saesneg, yn ofyniad i nodi’r ddau enw –
 - (a) yn fersiwn Gymraeg yr adroddiad, a
 - (b) yn fersiwn Saesneg yr adroddiad.

49E Adroddiad cychwynnol ar yr adolygiad ffiniau a’r cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau

- (1) Ar ôl cymryd y camau yn adrannau 49B(1) a 49D(2), rhaid i’r Comisiwn wneud adroddiad cychwynnol yn nodi –
 - (a) cynigion y Comisiwn ar gyfer newid i –
 - (i) ffiniau etholaethau’r Senedd;

- (6) A local government boundary is “prospective” on the review date if, on that date—
 - (a) it is specified in a provision of—
 - (i) primary legislation, or
 - (ii) an instrument made under primary legislation, and
 - (b) the provision specifying the boundary is not yet in force for all purposes.
- (7) In subsection (6), “primary legislation” means—
 - (a) an Act enacted under Part 4 of the Government of Wales Act 2006 (c. 32);
 - (b) a Measure enacted under Part 3 of that Act;
 - (c) an Act of the Parliament of the United Kingdom.

49D Determining the names of the Senedd constituencies

- (1) Each Senedd constituency must have a single name for the purposes of identifying the constituency in communication through Welsh and English, unless the Commission considers this would be unacceptable (in which case the constituency may have different names for the purposes of identifying it in communication through Welsh and English).
- (2) Before making its initial report (see section 49E) the Commission must, if it intends to make a proposal relating to the name of a Senedd constituency—
 - (a) consult the Welsh Language Commissioner on the orthography of the proposed name, and
 - (b) consider its proposal having regard to any representations from the Commissioner on the orthography of the proposed name.
- (3) A requirement under this Part to set out the name or proposed name of a Senedd constituency in a report is, where the Commission considers the constituency should have different names for the purposes of identifying it in communication through Welsh and English, a requirement to set out both names—
 - (a) in the Welsh language version of the report, and
 - (b) in the English language version of the report.

49E Initial report on boundary review and first period for representations

- (1) After taking the steps in sections 49B(1) and 49D(2), the Commission must make an initial report setting out—
 - (a) the Commission’s proposals for change to—
 - (i) the boundaries of the Senedd constituencies;

- (ii) enwau etholaethau'r Senedd, neu
 - (b) os nad yw'n ystyried bod unrhyw newid yn briodol, datganiad i'r perwyl hwnnw.
- (2) Rhaid i'r Comisiwn –
- (a) cyhoeddi'r adroddiad cychwynnol,
 - (b) hysbysu unrhyw berson y mae'r Comisiwn yn ystyried ei fod yn briodol ynghylch sut i gyrchu'r adroddiad,
 - (c) gwahodd sylwadau ar yr adroddiad, a
 - (d) hysbysu unrhyw berson y mae'r Comisiwn yn ystyried ei fod yn briodol ynghylch y cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau.
- (3) Yn ystod y cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg.
- (4) Mae'r cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau yn gyfnod o wyth wythnos, gan ddechrau â'r dyddiad y cyhoeddir yr adroddiad cychwynnol.

49F Cyhoeddi sylwadau ac ymgynghori arnynt

- (1) Ar ddiwedd y cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau, rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi dogfen yn nodi unrhyw sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod hwnnw (gan gynnwys unrhyw sylwadau ar yr adroddiad cychwynnol a wnaed gan Gomisiynydd y Gymraeg pan ymgynghorwyd â'r Comisiynydd o dan adran 49E(3)).
- (2) Rhaid i'r Comisiwn hefyd –
- (a) hysbysu unrhyw berson y mae'r Comisiwn yn ystyried ei fod yn briodol ynghylch sut i gyrchu'r ddogfen a gyhoeddir o dan is-adran (1),
 - (b) gwahodd sylwadau mewn cysylltiad â'r sylwadau a nodir yn y ddogfen a gyhoeddir o dan is-adran (1),
 - (c) hysbysu unrhyw berson y mae'r Comisiwn yn ystyried ei fod yn briodol ynghylch yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau, a
 - (d) cyhoeddi gwybodaeth ynghylch yr amseroedd a'r lleoedd y cynhelir gwrandawiadau cyhoeddus o dan adran 49G a, phan fo gwrandawiadau i'w cynnal yn rhannol wyneb yn wyneb ac yn rhannol drwy ddefnyddio cyfleusterau o bell, bennu cyfarwyddiadau ynghylch sut i wneud sylwadau drwy ddefnyddio cyfleusterau o bell.
- (3) Mae'r ail gyfnod ar gyfer sylwadau yn gyfnod o chwe wythnos, gan ddechrau â'r dyddiad y cyhoeddir y ddogfen o dan is-adran (1).
- (4) Yn is-adran (2)(d), ystyr "cyfleusterau o bell" yw unrhyw gyfarpar neu gyfleuster arall sy'n galluogi pobl nad ydynt yn y man lle y cynhelir y gwrandawriad i wneud sylwadau yn y gwrandawriad.

- (ii) the names of the Senedd constituencies, or
 - (b) if it does not consider any change appropriate, a statement to that effect.
- (2) The Commission must –
 - (a) publish the initial report,
 - (b) inform any person it considers appropriate of how to access the report,
 - (c) invite representations on the report, and
 - (d) notify any person it considers appropriate of the first period for representations.
- (3) During the first period for representations the Commission must consult the Welsh Language Commissioner.
- (4) The first period for representations is a period of eight weeks, beginning with the date on which the initial report is published.

49F Publication of, and consultation on, representations

- (1) At the end of the first period for representations the Commission must publish a document setting out any representations received during that period (including any representations on the initial report made by the Welsh Language Commissioner when consulted under section 49E(3)).
- (2) The Commission must also –
 - (a) inform any person it considers appropriate of how to access the document published under subsection (1),
 - (b) invite representations in respect of the representations set out in the document published under subsection (1),
 - (c) notify any person it considers appropriate of the second period for representations, and
 - (d) publish information about the times and places at which public hearings under section 49G will be held and, where hearings are to be held partly in person and partly through the use of remote facilities, specify instructions on how to make representations using remote facilities.
- (3) The second period for representations is a period of six weeks, beginning with the date on which the document is published under subsection (1).
- (4) In subsection (2)(d), “remote facilities” means any equipment or other facility that enables people who are not in the place where the hearing is being held to make representations at the hearing.

49G Gwrandawiadau cyhoeddus

- (1) Yn ystod yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau, rhaid i'r Comisiwn gynnal o leiaf ddau o wrandawiadau cyhoeddus, ond nid mwy na phump o'r gwrandawiadau cyhoeddus hynny, i alluogi gwneud sylwadau ynghylch ei gynigion.
- (2) Rhaid i'r gwrandawiadau cyhoeddus rhyngddynt gwmpasu Cymru gyfan.
- (3) Rhaid i wrandawriad cyhoeddus gael ei gwblhau o fewn dau ddiwrnod.
- (4) Os yw gwrandawriad i'w gynnal yn rhannol drwy ddefnyddio cyfleusterau o bell (o fewn yr ystyr a roddir yn adran 49F(4)), rhaid i'r cyfleusterau o bell alluogi'r bobl sy'n gwneud sylwadau yn y gwrandawriad ond nad ydynt yn y man lle y cynhelir y gwrandawriad i siarad ac i gael eu clywed gan (pa un a yw'n galluogi'r bobl hynny i weld ac i gael eu gweld ai peidio gan) –
 - (a) ei gilydd, a
 - (b) pobl yn y man lle y cynhelir y gwrandawriad.
- (5) Rhaid i'r Comisiwn benodi person i fod yn gadeirydd ar bob gwrandawriad ("y cadeirydd").
- (6) Rhaid i'r cadeirydd bennu'r weithdrefn sydd i lywodraethu'r gwrandawriad hwnnw.
- (7) Rhaid i'r cadeirydd wneud trefniadau i wrandawriad cyhoeddus ddechrau gydag esboniad o –
 - (a) y cynigion y mae'r gwrandawriad yn ymwneud â hwy;
 - (b) sut y caniateir gwneud sylwadau ynghylch y cynigion.
- (8) Rhaid i'r cadeirydd ganiatáu i sylwadau gael eu gwneud –
 - (a) gan bob plaid wleidyddol sydd wedi ei chofrestru o dan Ran 2 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (p. 41) ac sydd naill ai –
 - (i) ag o leiaf un Aelod o'r Senedd, neu
 - (ii) wedi cael o leiaf 10% o'r pleidleisiau a fwriwyd yn yr etholiad cyffredinol mwyaf diweddar;
 - (b) gan unrhyw berson arall y mae'r cadeirydd yn ystyried bod ganddo fuddiant yn unrhyw un neu ragor o'r cynigion y mae'r gwrandawriad yn ymwneud â hwy (yn ddarostyngedig i is-adran (9)(c)).
- (9) Caiff y cadeirydd –
 - (a) pennu ym mha drefn y gwneir sylwadau;
 - (b) cyfyngu ar faint o amser a ganiateir ar gyfer sylwadau, ac nid oes angen iddo ganiatáu'r un faint o amser i bob person;

49G Public hearings

- (1) During the second period for representations, the Commission must hold at least two but no more than five public hearings to enable representations to be made about its proposals.
- (2) The public hearings must between them cover the whole of Wales.
- (3) A public hearing must be completed within two days.
- (4) If a hearing is to be held partly through the use of remote facilities (within the meaning given in section 49F(4)), the remote facilities must enable the people making representations at the hearing but who are not in the place where the hearing is being held to speak to and be heard by (whether or not it enables those people to see and be seen by) –
 - (a) each other, and
 - (b) people at the place where the hearing is being held.
- (5) The Commission must appoint a person to chair each hearing (“the chair”).
- (6) The chair must determine the procedure that is to govern that hearing.
- (7) The chair must make arrangements for a public hearing to begin with an explanation of –
 - (a) the proposals with which the hearing is concerned;
 - (b) how representations about the proposals may be made.
- (8) The chair must allow representations to be made –
 - (a) by each political party that is registered under Part 2 of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 (c. 41) and either –
 - (i) has at least one Member of the Senedd, or
 - (ii) received at least 10% of the votes cast in the most recent general election;
 - (b) by any other person considered by the chair to have an interest in any of the proposals with which the hearing is concerned (subject to subsection (9)(c)).
- (9) The chair may –
 - (a) determine the order in which representations are made;
 - (b) restrict the amount of time allowed for representations and need not allow the same amount to each person;

- (c) os yw'n angenrheidiol oherwydd prinder amser, benderfynu pa rai o'r personau a grybwyllir yn is-adran (8)(b) nas caniateir iddynt wneud sylwadau.
- (10) Caiff y cadeirydd holi cwestiynau i berson sy'n gwneud sylwadau yn y gwrandawriad, neu ganiatáu i gwestiynau cael eu holi i'r person hwnnw.
- (11) Os caniateir holi cwestiynau, caiff y cadeirydd reoleiddio modd y cwestiynu neu gyfyngu ar nifer y cwestiynau y caiff person eu gofyn.

49H Ail adroddiad ar yr adolygiad ffiniau a'r cyfnod terfynol ar gyfer sylwadau

- (1) Ar ddiwedd yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau –
 - (a) rhaid i'r Comisiwn ystyried ei gynigion gan roi sylw i'r sylwadau a wnaed yn ystod y cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau a'r ail gyfnod ar gyfer sylwadau, a
 - (b) os yw'r Comisiwn, ar ôl ystyried ei gynigion, yn bwriadu gwneud cynnig nas nodwyd yn yr adroddiad cychwynnol yn ymwneud ag enw etholaeth Senedd, rhaid iddo –
 - (i) ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff yr enw arfaethedig, a
 - (ii) rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wnaed gan y Comisiynydd ar orgraff yr enw arfaethedig.
- (2) Ar ôl cymryd y camau yn is-adran (1), rhaid i'r Comisiwn wneud ail adroddiad –
 - (a) yn nodi –
 - (i) cynigion y Comisiwn ar gyfer newid ffiniau ac enwau etholaethau'r Senedd, neu
 - (ii) os nad yw'r Comisiwn yn ystyried bod unrhyw newid yn briodol, ddatganiad i'r perwyl hwnnw;
 - (b) yn pennu manylion unrhyw newidiadau y mae'r Comisiwn wedi eu gwneud i'r cynigion a nodwyd yn yr adroddiad cychwynnol, ac esboniad ynghylch pam y gwnaed y newidiadau hynny.
- (3) Rhaid i'r Comisiwn –
 - (a) cyhoeddi'r ail adroddiad,
 - (b) cyhoeddi dogfen –
 - (i) yn cynnwys cofnodion o'r gwrandawriadau cyhoeddus a gynhaliwyd o dan adran 49G, a
 - (ii) yn nodi unrhyw sylwadau (o'r math a ddisgrifir yn adran 49F(2)(b)) a gafwyd yn ystod yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau,

- (c) if necessary because of shortage of time, determine which of the persons mentioned in subsection (8)(b) are not allowed to make representations.
- (10) The chair may put questions, or allow questions to be put, to a person making representations at the hearing.
- (11) If questions are allowed to be put, the chair may regulate the manner of questioning or restrict the number of questions a person may ask.

49H Second report on boundary review and final period for representations

- (1) At the end of the second period for representations the Commission must—
 - (a) consider its proposals having regard to the representations made during the first and second periods for representations, and
 - (b) if, having considered its proposals, it intends to make a proposal that was not set out in the initial report relating to the name of a Senedd constituency—
 - (i) consult the Welsh Language Commissioner on the orthography of the proposed name, and
 - (ii) have regard to any representations made by the Commissioner on the orthography of the proposed name.
- (2) After taking the steps in subsection (1), the Commission must make a second report—
 - (a) setting out—
 - (i) the Commission’s proposals for change to the boundaries and names of the Senedd constituencies, or
 - (ii) if the Commission does not consider any change appropriate, a statement to that effect;
 - (b) specifying details of any changes the Commission has made to the proposals set out in the initial report, and an explanation of why those changes have been made.
- (3) The Commission must—
 - (a) publish the second report,
 - (b) publish a document—
 - (i) containing records of the public hearings held under section 49G, and
 - (ii) setting out any representations (of the kind described in section 49F(2)(b)) received during the second period for representations,

- (c) hysbysu unrhyw berson y mae'r Comisiwn yn ystyried ei fod yn briodol ynghylch sut i gyrchu'r adroddiad a'r ddogfen a gyhoeddwyd o dan baragraff (b),
 - (d) gwahodd sylwadau –
 - (i) ar yr adroddiad,
 - (ii) mewn cysylltiad ag unrhyw sylwadau a wnaed yn ystod y gwrandawiadau cyhoeddus, a
 - (iii) mewn cysylltiad ag unrhyw sylwadau (o'r math a ddisgrifir yn adran 49F(2)(b)) a gafwyd yn ystod yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau, a
 - (e) hysbysu unrhyw berson y mae'r Comisiwn yn ystyried ei fod yn briodol ynghylch y cyfnod terfynol ar gyfer sylwadau.
- (4) Yn ystod y cyfnod terfynol ar gyfer sylwadau rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg.
- (5) Mae'r cyfnod terfynol ar gyfer sylwadau yn gyfnod o bedair wythnos, gan ddechrau â'r dyddiad y cyhoeddir yr ail adroddiad.
- (6) Ar ddiwedd y cyfnod terfynol ar gyfer sylwadau rhaid i'r Comisiwn –
- (a) cyhoeddi dogfen sy'n nodi unrhyw sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod hwnnw (gan gynnwys unrhyw sylwadau wnaed gan Gomisiynydd y Gymraeg, pan ymgynghorwyd â'r Comisiynydd o dan is-adran (4), ar yr ail adroddiad ac ar y sylwadau a grybwyllir yn is-adran (3)(d)(ii) a (iii)),
 - (b) ystyried ei gynigion gan roi sylw i'r sylwadau hynny, ac
 - (c) os yw'r Comisiwn, ar ôl ystyried ei gynigion, yn bwriadu gwneud cynnig nas nodwyd yn yr ail adroddiad yn ymwneud ag enw etholaeth Senedd, rhaid iddo –
 - (i) ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff yr enw arfaethedig, a
 - (ii) rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wnaed gan y Comisiynydd ar orgraff yr enw arfaethedig.

49I Adroddiad terfynol ar adolygiad ffiniau

- (1) Cyn 1 Rhagfyr 2028, a chyn 1 Rhagfyr bob wythfed flynedd ar ôl hynny, rhaid i'r Comisiwn –
- (a) wneud adroddiad terfynol a'i gyhoeddi, a
 - (b) anfon yr adroddiad at Weinidogion Cymru.

- (c) inform any person it considers appropriate of how to access the report and the document published under paragraph (b),
 - (d) invite representations –
 - (i) on the report,
 - (ii) in respect of any representations made during the public hearings, and
 - (iii) in respect of any representations (of the kind described in section 49F(2)(b)) received during the second period for representations, and
 - (e) notify any person it considers appropriate of the final period for representations.
- (4) During the final period for representations the Commission must consult the Welsh Language Commissioner.
- (5) The final period for representations is a period of four weeks, beginning with the date on which the second report is published.
- (6) At the end of the final period for representations the Commission must –
- (a) publish a document setting out any representations received during that period (including any representations made by the Welsh Language Commissioner, when consulted under subsection (4), on the second report and on the representations mentioned in subsection (3)(d)(ii) and (iii)),
 - (b) consider its proposals having regard to those representations, and
 - (c) if, having considered its proposals, it intends to make a proposal that was not set out in the second report relating to the name of a Senedd constituency –
 - (i) consult the Welsh Language Commissioner on the orthography of the proposed name, and
 - (ii) have regard to any representations made by the Commissioner on the orthography of the proposed name.

49I Final report on boundary review

- (1) Before 1 December 2028, and before 1 December every eighth year after that, the Commission must –
- (a) make and publish a final report, and
 - (b) send it to the Welsh Ministers.

- (2) Rhaid i'r adroddiad terfynol—
- (a) naill ai—
 - (i) nodi manylion unrhyw newidiadau y mae'n ofynnol i'w gwneud i etholaethau'r Senedd, neu
 - (ii) datgan nad yw'n ofynnol gwneud unrhyw newid i etholaethau'r Senedd, a
 - (b) pennu manylion unrhyw newidiadau y mae'r Comisiwn wedi eu gwneud i'r cynigion a nodir yn yr ail adroddiad, ac esbonio pam y gwnaed y newidiadau hynny.
- (3) Os yw'n ofynnol gwneud newidiadau i ffiniau etholaethau'r Senedd, rhaid i'r adroddiad terfynol nodi—
- (a) ffiniau yr holl etholaethau y dychwelir Aelodau o'r Senedd ar eu cyfer,
 - (b) enwau'r holl etholaethau hynny, ac
 - (c) a yw pob etholaeth yn etholaeth sirol neu'n etholaeth fwrdeistrefol.
- (4) Os nad oes newid i'w wneud i ffiniau un o etholaethau'r Senedd ond bod angen newid y naill neu'r llall neu'r ddau o'r pethau a ganlyn—
- (a) enw'r etholaeth;
 - (b) ei dynodiad yn etholaeth sirol neu'n etholaeth fwrdeistrefol,
- rhaid i'r adroddiad terfynol nodi'r newid.
- (5) Nid yw methiant gan y Comisiwn i gydymffurfio â therfyn amser yn is-adran (1) yn annilysu adroddiad terfynol.
- (6) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i Weinidogion Cymru gael adroddiad terfynol, rhaid iddynt ei osod gerbron Senedd Cymru.

49J Gweithredu adroddiad terfynol gan Weinidogion Cymru

- (1) Pan fo adroddiad terfynol yn nodi newidiadau y mae'n ofynnol i'w gwneud i etholaethau'r Senedd, rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn rhoi effaith i'r penderfyniadau yn adroddiad terfynol y Comisiwn—
- (a) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl gosod yr adroddiad gerbron Senedd Cymru, a
 - (b) sut bynnag, oni bai bod amgylchiadau eithriadol, cyn diwedd y cyfnod o bedwar mis sy'n dechrau â'r dyddiad y gosodir yr adroddiad gerbron y Senedd.
- (2) Pan na fo rheoliadau wedi eu gwneud cyn diwedd y cyfnod a grybwyllir yn is-adran (1)(b), rhaid i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron Senedd Cymru yn nodi'r amgylchiadau eithriadol.

- (2) The final report must—
 - (a) either—
 - (i) set out the details of any changes that are required to be made to the Senedd constituencies, or
 - (ii) state that no alteration is required to be made to the Senedd constituencies, and
 - (b) specify details of any changes the Commission has made to the proposals set out in the second report, and explain why those changes have been made.
- (3) If changes are required to be made to the boundaries of Senedd constituencies, the final report must set out—
 - (a) the boundaries of all the constituencies for which Members of the Senedd are to be returned,
 - (b) the names of all those constituencies, and
 - (c) whether each constituency is a county constituency or borough constituency.
- (4) If the boundaries of a Senedd constituency are not to be changed but a change is required to either or both—
 - (a) the name of the constituency;
 - (b) its designation as a county constituency or borough constituency,the final report must set out the change.
- (5) A failure by the Commission to comply with a deadline in subsection (1) does not invalidate a final report.
- (6) As soon as reasonably practicable after receiving a final report, the Welsh Ministers must lay it before Senedd Cymru.

49J Implementation of final report by the Welsh Ministers

- (1) Where a final report sets out changes that are required to be made to the Senedd constituencies, the Welsh Ministers must make regulations giving effect to the determinations in the Commission's final report—
 - (a) as soon as reasonably practicable after laying the report before Senedd Cymru, and
 - (b) in any event, unless there are exceptional circumstances, before the end of the period of four months beginning with the date the report is laid before the Senedd.
- (2) Where regulations are not made before the end of the period mentioned in subsection (1)(b), the Welsh Ministers must lay a statement before Senedd Cymru setting out the exceptional circumstances.

- (3) Rhaid i ddatganiad o dan is-adran (2) gael ei osod cyn diwedd y cyfnod o bedwar mis sy'n dechrau â'r dyddiad y gosodir yr adroddiad terfynol gerbron Senedd Cymru.
- (4) Rhaid i ddatganiadau pellach sy'n nodi'r amgylchiadau eithriadol gael eu gosod gerbron Senedd Cymru cyn diwedd pob cyfnod dilynol o bedair wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod y gosodwyd y datganiad blaenorol, hyd nes bo'r rheoliadau wedi eu gwneud.
- (5) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon wneud darpariaeth ar gyfer unrhyw faterion y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn ddeilliadol i'r penderfyniadau yn yr adroddiad terfynol, neu'n ganlyniadol arnynt.
- (6) Rhaid i reoliadau o dan yr adran hon gael eu gwneud drwy offeryn statudol.
- (7) Rhaid i offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan yr adran hon gael ei osod gerbron Senedd Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r rheoliadau gael eu gwneud.
- (8) Nid yw dod i rym y rheoliadau hyn yn effeithio ar ddychwelyd Aelod o'r Senedd i Senedd Cymru, na chyfansoddiad Senedd Cymru, hyd nes y diddymir y Senedd mewn cysylltiad ag—
 - (a) yr etholiad cyffredinol cyffredin nesaf, neu
 - (b) etholiad cyffredinol eithriadol, y cynhelir y bleidlais ar ei gyfer—
 - (i) yn ystod y cyfnod o fis sy'n gorffen â'r diwrnod cyn y diwrnod y byddai'r bleidlais ar gyfer yr etholiad cyffredinol cyffredin nesaf wedi ei chynnal o dan adran 3(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), gan ddiystyru paragraffau (a) a (b) o'r is-adran honno, neu
 - (ii) ar y diwrnod y byddai'r bleidlais ar gyfer yr etholiad cyffredinol cyffredin nesaf wedi ei chynnal o dan adran 3(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan ddiystyru paragraffau (a) a (b) o'r is-adran honno.

49K Addasu adroddiad terfynol gan y Comisiwn

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys—
 - (a) pan fo Gweinidogion Cymru wedi gosod adroddiad terfynol gerbron Senedd Cymru o dan adran 49I(6),
 - (b) pan fo'r adroddiad yn nodi newidiadau y mae'n ofynnol i'w gwneud i etholaethau'r Senedd,
 - (c) pan fo'r Comisiwn yn ystyried bod angen addasu'r adroddiad i gywiro gwall neu wallau mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r materion a grybwyllir yn adran 49I(3) neu (4), a
 - (d) pan na fo'r rheoliadau wedi eu gwneud hyd hynny o dan adran 49J.

- (3) A statement under subsection (2) must be laid before the end of the period of four months beginning with the date the final report is laid before Senedd Cymru.
- (4) Further statements setting out the exceptional circumstances must be laid before Senedd Cymru before the end of each subsequent period of four weeks beginning with the day on which the previous statement was laid, until the regulations are made.
- (5) Regulations under this section may make provision for any matters which the Welsh Ministers consider are incidental to, or consequential on, the determinations in the final report.
- (6) Regulations under this section must be made by statutory instrument.
- (7) A statutory instrument containing regulations under this section must be laid before Senedd Cymru as soon as reasonably practicable after the regulations are made.
- (8) The coming into force of the regulations does not affect the return of a Member of the Senedd to Senedd Cymru, or the constitution of Senedd Cymru, until the dissolution of the Senedd in connection with—
 - (a) the next ordinary general election, or
 - (b) an extraordinary general election, the poll for which is held—
 - (i) during the period of one month ending with the day before the day on which the poll for the next ordinary general election would have been held under section 3(1) of the Government of Wales Act 2006 (c. 32), disregarding paragraphs (a) and (b) of that subsection, or
 - (ii) on the day on which the poll for the next ordinary general election would have been held under section 3(1) of the Government of Wales Act 2006, disregarding paragraphs (a) and (b) of that subsection.

49K Modification of final report by the Commission

- (1) This section applies where—
 - (a) the Welsh Ministers have laid a final report before Senedd Cymru under section 49I(6),
 - (b) the report sets out changes that are required to be made to the Senedd constituencies,
 - (c) the Commission considers that the report needs to be modified to correct an error or errors in respect of any of the matters mentioned in section 49I(3) or (4), and
 - (d) regulations have not yet been made under section 49J.

- (2) Caiff y Comisiwn anfon datganiad at Weinidogion Cymru yn pennu –
 - (a) yr addasiadau i'r adroddiad, a
 - (b) y rhesymau dros yr addasiadau hynny.
- (3) Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi datganiad a anfonir at Weinidogion Cymru o dan is-adran (2).
- (4) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i Weinidogion Cymru gael datganiad, rhaid iddynt ei osod gerbron Senedd Cymru.
- (5) Pan fo datganiad wedi ei anfon at Weinidogion Cymru, rhaid i'r rheoliadau a wneir o dan adran 49J roi effaith i'r adroddiad terfynol gyda'r addasiadau a bennir yn y datganiad.

49L Dehongli'r Rhan

- (1) Yn y Rhan hon –

mae i "cyfleusterau o bell" ("*remote facilities*") yr ystyr a roddir gan adran 49F(4);

mae i "dyddiad yr adolygiad" ("*review date*") yr ystyr a roddir gan adran 49B(2);

ystyr "etholaeth Senedd" ("*Senedd constituency*") yw etholaeth y darperir ar ei chyfer mewn rheoliadau a wneir o dan adran 49J;

ystyr "etholiad cyffredinol" ("*general election*") yw etholiad cyffredinol cyffredin neu etholiad cyffredinol eithriadol a gynhelir o dan Ran 1 o Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32);

ystyr "ffiniau llywodraeth leol" ("*local government boundaries*") yw ffiniau siroedd, ffiniau bwrdeistrefi sirol, ffiniau wardiau etholiadol, ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol yng Nghymru.
- (2) Pan fo'r Rhan hon yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i gyhoeddi hysbysiad, adroddiad neu ddogfen arall, rhaid i'r hysbysiad, yr adroddiad neu ddogfen arall gael ei gyhoeddi neu ei chyhoeddi –
 - (a) ar wefan y Comisiwn, a
 - (b) mewn unrhyw fodd arall y mae'r Comisiwn yn ystyried ei fod yn briodol."

Diwygiadau cysylltiedig

- 2 (1) Mae Deddf 2013 wedi ei diwygio yn unol ag is-baragraffau (2) i (6).
- (2) Yn adran 1 (trosolwg), ar ôl is-adran (3) mewnosoder –
 - “(3A) Mae Rhan 3A yn gwneud darpariaeth ynghylch adolygiadau o ffiniau etholaethau'r Senedd a gynhelir gan y Comisiwn.”

- (2) The Commission may send a statement to the Welsh Ministers specifying –
 - (a) the modifications of the report, and
 - (b) the reasons for those modifications.
- (3) The Commission must publish a statement sent to the Welsh Ministers under subsection (2).
- (4) As soon as reasonably practicable after receiving a statement, the Welsh Ministers must lay it before Senedd Cymru.
- (5) Where a statement has been sent to the Welsh Ministers, the regulations made under section 49J must give effect to the final report with the modifications specified in the statement.

49L Interpretation of Part

- (1) In this Part –

“general election” (*“etholiad cyffredinol”*) means an ordinary general election or an extraordinary general election held under Part 1 of the Government of Wales Act 2006 (c. 32);

“local government boundaries” (*“ffiniau llywodraeth leol”*) are the boundaries of counties, county boroughs, electoral wards, communities and community wards in Wales;

“remote facilities” (*“cyfleusterau o bell”*) has the meaning given by section 49F(4);

“review date” (*“dyddiad yr adolygiad”*) has the meaning given by section 49B(2);

“Senedd constituency” (*“etholaeth Senedd”*) means a constituency provided for in regulations made under section 49J.
- (2) Where this Part imposes a duty on the Commission to publish a notice, report or other document, the notice, report or other document must be published –
 - (a) on the Commission’s website, and
 - (b) in such other manner as the Commission considers appropriate.”

Related amendments

- 2 (1) The 2013 Act is amended in accordance with sub-paragraphs (2) to (6).
- (2) In section 1 (overview), after subsection (3) insert –
 - “(3A) Part 3A makes provision about Senedd constituency boundary reviews conducted by the Commission.”

- (3) Yn adran 13(1) (dirprwyo), yn lle’r geiriau o “Benodau 2” hyd at y diwedd rhodder “ –
- (a) Penodau 2 i 4, 6 neu 7 o Ran 3 (swyddogaethau sy’n ymwneud â chynnal adolygiadau o lywodraeth leol neu ymchwiliadau lleol);
 - (b) Rhan 3A (swyddogaethau sy’n ymwneud ag adolygiadau o ffiniau etholaethau’r Senedd);
 - (c) Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (swyddogaethau sy’n ymwneud ag adolygiadau cychwynnol),

fel a benderfynir ganddo i’r graddau y mae wedi eu dirprwyo felly.”

- (4) Yn adran 14 (cyfarwyddiadau), ar ôl is-adran (2) mewnosoder –

“(3) Nid yw’r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i’r Comisiwn yn ymwneud ag arfer ei swyddogaethau o dan Ran 3A (swyddogaethau sy’n ymwneud ag adolygiadau o ffiniau etholaethau’r Senedd).”

- (5) Yn adran 71(4) (gorchmynion a rheoliadau), ar ôl “adran 45 neu 75” mewnosoder “, neu reoliadau a wneir o dan adran 49J”.

- (6) Yn Atodlen 3 (mynegai o ymadroddion wedi eu diffinio), yn nhabl 2 –

- (a) yn y lleoedd priodol mewnosoder –

“Cyfleusterau o bell (<i>Remote facilities</i>)	Adran 49F(4)”;
“Dyddiad yr adolygiad (<i>Review date</i>)	Adran 49B(2)”;
“Etholaeth Senedd (<i>Senedd constituency</i>)	Adran 49L(1)”;
“Etholiad cyffredinol (<i>General election</i>)	Adran 49L(1)”;
“Ffiniau llywodraeth leol (<i>Local government boundaries</i>)	Adran 49L(1)”;

- (b) yn y cofnod ar gyfer “Etholwr llywodraeth leol (*Local government elector*)”, yn yr ail golofn, ar ôl “Adran 30” mewnosoder “at ddibenion Rhan 3 ac adran 49C(3) at ddibenion Rhan 3A”.

- (7) Yn Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, hepgorer paragraff 13 (dirprwyo swyddogaethau o dan yr Atodlen honno).

Darpariaeth drosiannol

- 3 (1) Rhaid i Weinidogion Cymru, pa un a yw’r adroddiad terfynol ar yr adolygiad cyntaf o ffiniau a gynhaliwyd o dan Ran 3A o Ddeddf 2013 yn nodi newidiadau sy’n ofynnol i’r etholaethau y dychwelir Aelodau o’r Senedd ar eu cyfer ai peidio, wneud rheoliadau o dan adran 49J sy’n nodi, yn unol â’r penderfyniadau yn yr adroddiad hwnnw –
- (a) ffiniau’r holl etholaethau hynny,
 - (b) enwau’r holl etholaethau hynny, ac
 - (c) a yw pob etholaeth yn etholaeth sirol neu’n etholaeth fwrdeistrefol, ac mae adran 49J(1) o Ddeddf 2013 i’w darllen yn unol â hynny.

- (3) In section 13(1) (delegation), for the words from “Chapters 2” to the end substitute “ –
- (a) Chapters 2 to 4, 6 or 7 of Part 3 (functions relating to the conduct of reviews of local government or local inquiries);
 - (b) Part 3A (functions relating to Senedd constituency boundary reviews);
 - (c) Schedule 1 to the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 (functions relating to initial reviews),
- as it may determine to the extent so delegated.”
- (4) In section 14 (directions), after subsection (2) insert –
- “(3) This section does not permit the Welsh Ministers to give the Commission a direction relating to the exercise of its functions under Part 3A (functions relating to Senedd constituency boundary reviews).”
- (5) In section 71(4) (orders and regulations), after “section 45 or 75” insert “, or regulations made under section 49J”.
- (6) In Schedule 3 (index of defined expressions), in table 2 –
- (a) at the appropriate places insert –

“General election (<i>Etholiad cyffredinol</i>)	Section 49L(1)”;
“Local government boundaries (<i>Ffiniau llywodraeth leol</i>)	Section 49L(1)”;
“Remote facilities (<i>Cyfleusterau o bell</i>)	Section 49F(4)”;
“Review date (<i>Dyddiad yr adolygiad</i>)	Section 49B(2)”;
“Senedd constituency (<i>Etholaeth Senedd</i>)	Section 49L(1)”;

- (b) in the entry for “Local government elector (*Etholwr llywodraeth leol*)”, in the second column, after “Section 30” insert “for the purposes of Part 3 and section 49C(3) for the purposes of Part 3A”.
- (7) In Schedule 1 to the Local Government and Elections (Wales) Act 2021, omit paragraph 13 (delegation of functions under that Schedule).

Transitional provision

- 3 (1) The Welsh Ministers must, whether or not the final report on the first boundary review conducted under Part 3A of the 2013 Act sets out changes that are required to be made to the constituencies for which Members of the Senedd are to be returned, make regulations under section 49J that set out, in accordance with the determinations in that report –
- (a) the boundaries of all those constituencies,
 - (b) the names of all those constituencies, and
 - (c) whether each constituency is a county constituency or borough constituency, and
- section 49J(1) of the 2013 Act is to be read accordingly.

- (2) Hyd nes y mae'r rheoliadau a grybwyllir yn is-baragraff (1) yn cymryd effaith, mae'r cyfeiriad yn y diffiniad o "etholaeth Senedd" yn adran 49L(1) o Ddeddf 2013 at "adran 49J" i'w ddarllen fel cyfeiriad at "baragraff 9 o Atodlen 2 i Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 (dsc 4)".

© 2024 Hawlfraint y Goron

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

-
- (2) Until the regulations mentioned in sub-paragraph (1) take effect, the reference in the definition of “Senedd constituency” in section 49L(1) of the 2013 Act to “section 49J” is to be read as a reference to “paragraph 9 of Schedule 2 to the Senedd Cymru (Members and Elections) Act 2024 (asc 4)”.

© Crown copyright 2024

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James,
Controller of His Majesty’s Stationery Office and King’s Printer of Acts of Parliament.

